CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION

EBRILL 2011

DYDDIAD	Nos Fercher, 20fed Ebrill, 2011
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Llanwnda
AELODAU YN BRESENNOL	Elin Evans (Cad), Gwilym V.Thomas, Elwyn Jones, Rhys Owen, Huw Williams, Meurig Williams, Nerys Evans, Neal Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Aeron M.Jones Bethan Williams (Clerc)

1.	Croeso
2.	Ymddiheuriadau Jason Hunt, Tom Ellis, Gwilym L.Williams
3.	Datgan Buddiant
4.	Cadarnwayd gofnodion mis Mawrth fel rhai cywir. GVT EE
5.	Materion i'w trafod: a) Gwella'r pentrefi – clerc wedi derbyn ffurflenni cais i gael caniatad i osod y potiau blodau. AMJ yn mynd i geisio cael mapiau i'r clerc. b) Polyn BT yn Llwyn – BT yn edrych mewn i'r mater. c) Pryniant tir ychwanegol i Cefnfaes. Llythyr wedi mynd at Gadlys yn nodi ein siomedigaeth. Mynd at Dewi Pritchard Jones am gyngor cyfreithiol ynglyn a phryniant gorfodol. d) GVT – adeiladu Ysgol Groeslon – holwyd faint o blant fyddai'n gallu mynd i ysgol newydd Groeslon. Bwriad ydy adeiladu ysgol i tua 100 o blant, ond gyda'r opsiwn o ychwanegu estyniad pe bai'r galw. e) Mynwent Cefnfaes – plotiau gwag – clerc wedi sgwennu i'r teulu yn gofyn os ydyn nhw dal efo diddordeb cadw'r plot, ond hyd yma heb dderbyn ymateb. Angen eu hagtoffa eto. f) EE – sbwriel, scratchcards ar ochr y ffordd, dim biniau. Gyrru llythyr i McDonalds i noddi biniau yn yr ardal. Cwyno i Gwynedd am y sefyllfa (swyddog trwyddedu, Amlyn ap Iorwerth). Falle rhoi gwrthwynebiad pan fyddant yn gwneud cais am drwydded. g) Llwybr troed Gerddi Benar a Ffrwd Cae Du angen sylw, clerc i roi gwybod i Wyn. h) Chevron ger Ty Rhos – clerc i fynd ar ol hwn. i) Lein Bryngwyn – gwaith ffensio a gosod giatiau yn digwydd yr wythnos yma. Tendr gwaith gwynebu'r llwybr wedi mynd allan, dyddiad cau 20.04.11. Angen paratoi dwy ddogfen dendr a dod nhw'n ol i'r pwyllgor llawn.
6.	Derbyn Adroddiadau Clerc i ysgrifennu at Sioned Williams, Datblygu Economaiddac at Bennaeth Parciau a Harbwr i weld beth ddigwyddodd efo adroddiad Coleg Glynllifon.
7.	Is-bwyllgorau-angen trefnu is-bwyllgor cyllid i archwilio'r cyfrifon am y flwyddyn, cyn eu cyflwyno i'r archwiliwr allanol – mae'r cyfrifon wedi'u cwblhau, angen trefnu dyddiad cyfarfod. Dechrau Mai.
8.	Materion ariannol Cyfri Cadw: 8547.99

	Cyfri Siec: 41.20 Taliadau: Cyflog clerc: £503.30 + ad-daliad meddalwedd Word PC World & Viking Direct: £301.97 & £113.49: Cyfanswm: £918.76 Cyllid y Wlad: £13.75 Cae'r Gors: £24.00 I.T.Davies – gosod giatiau a ffens - £2,256.00 Cais am nawdd gan Bwyllgor Clwb ar ol Ysgol Rhostryfan – Cynnig £100 y mis am dri mis, ar yr amod ein bod yn derbyn mantolen.
9.	Materion Cynllunio C11/0222/24/LL – Perthi, Rhostryfan – estyniadau a newidiadau Gwrthwynebu oherwydd ei fod yn atal golau, ac yn rhy fawr o'i gymharu a'r adeiladau eraill yn y cyffiniau. Eisoes wedi'u caniatau: Glan Gwyrfai, Saron – codi sied
10.	Gohebiaeth 1) Cynllun Cymorth Band Eang 2) Cyngor Gwynedd – taco problemau baw cwn gyda'n gilydd 3) Un Llais – cyfarfod cyffredinol blynyddol 4) Tystysgrif mynychu cynhadledd SLCC 5) NE – llythyr gan berchnogion Hafod Ruffydd yn cwyno am gylch cerrig, palmwydd a goleuadau – clerc i gysylltu efo John Ratcliff, Cyngor Cefn Gwlad.
11.	Materion mis nesa a) ElJ – agoriad swyddogol 21ain o Fai, 10.30 o'r gloch – clerc i anfon gwahoddiadau at Mr.Geraint Summers a Mr.Glyn Owen gan i'r ddau yma fod yn allweddol i'r cynllun. b) NW – palmant dros ffordd i Glyn Carrog, dynes wedi disgyn, palmant efo cerrig mán c) NW – Capel Foel i Hen Gapel – cyflwr gwael y ffordd. Clerc i gysylltu a'r Adran Briffyrdd. d) RO – goleuadau White Towers, goleuadau uchel efo spotlights – angen gosod *difuser* neu orchudd. Dallu pobl ar y ffordd. e) HW – bin baw ci reit wrth ymyl cysgodfan bysiau f) EE – kerbs Dinas wedi malu eto – loriau trwm sy'n malurio'r palmant. g) AMJ – llwybr Cefnfaes i Ffrwd Cae Du (Bodaden) – clerc i gysylltu efo'r swyddog llwybrau. h) ElJ- torri gwair ar ochr y ffordd. Rhwng Ffrwd Cae Du a Rhostryfan; rhwng Rhostryfan a Dinas; rhwng Aberalaw a Penyffordd; Penyffordd i Clwb. Angen danfon llythyrau i gontractwyr gan ofyn am brisiau. i) NE – angen torri coed Pont Caer Moel
12.	Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm